

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Tai a phobl anabl

argyfwng cudd Cymru



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Cyflwyniad

Y broblem

Tai yw congflaen bywydau annibynnol, ond eto mae llawer o bobl anabl yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn cwrdd â'u hanghenion. Os yw pobl anabl i allu dewis a rheoli eu bywydau - yna mae angen gweithredu ar frys i sicrhau bod y cyflenwadau tai yn awr ac yn y dyfodol yn hygyrch i bawb.

Mae Cyfamod y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR), sy'n cynnwys 'hawl pawb i safon byw ddigonol dido'i hun a'i deulu, gan gynnwys tai digonol', yn cydnabod pwysigrwydd tai.

Mae'r hawl i fyw'n annibynnol hefyd wedi bod yn ganolog i'r ymholiad yma: mae wedi'i ymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCPRD) y mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo'n gyfreithiol iddo.

Yn dilyn ei adolygiad o hanes hawliau anabl Prydain fis Awst 2017, rhoddodd Pwyllgor y CU ar Hawliau Pobl Anabl sylw i bryderon bod y sefyllfa ym Mhrydain yn dirywio o ran hawliau pobl anabl i fyw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned (UNCPRD Erthygl 19), ac nad oedd digon o safonau hygyrchedd yn y DU o ran tai fforddiadwy (UNCPRD Erthygl 9) (Pwyllgor ar Hawliau Pobl Anabl, 2017).

Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl anabl nag unrhyw ranbarth neu wlad arall yn y DU, gyda 26 y cant o'r boblogaeth yn anabl (Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Adnoddau Teuluol 2015/16) Yn 2015, dangosodd ystadegau Llywodraeth Cymru bod gan 112,887 o bobl yng Nghymru a oedd dros 65 oed amhariad ar eu symudedd. Rhagwelir y bydd y nifer yma'n codi o 58 y cant erbyn 2035 (Llywodraeth Cymru, Daffodil Projections).

Roedd y dystiolaeth y gwnaethom ei chasglu yn dwyn sylw at effaith tai anhygyrch a'r heriau sy'n wynebu pobl anabl wrth geisio tai priodol, gan effeithio ar eu hawl i fyw'n annibynnol. Mae hyn, ynghyd â'r tueddiadau demograffig, yn golygu bod angen gweithredu nawr i fynd i'r afael ag anghenion tai pobl anabl yng Nghymru.

Yr ymchwiliad

Fis Rhagfyr 2016, lansiodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ('y Comisiwn') ymchwiliad ffurfiol i dai ar gyfer pobl anabl ledled Prydain. Ceisiodd yr ymchwiliad ddarganfod a oedd argaeledd tai hygyrch ac addasadwy, a'r gwasanaethau cymorth cysylltiedig, yn diwallu hawliau pobl anabl i fyw'n annibynnol.

Mae egwyddor byw'n annibynnol yn cydnabod mai pobl anabl sydd yn y sefyllfa orau i adnabod a hyrwyddo gwelliannau yn y tai a'r cymorth. Dull yr ymchwiliad o drin hyn, felly, oedd casglu tystiolaeth oddi wrth bobl anabl, a cheisio'u barn ar dai.

Ein hymdriniaeth

Mae ein hymchwiliad wedi defnyddio amrediad eang o dystiolaeth yn ffynhonnell, gan gynnwys 'galwad am dystiolaeth' oddi wrth bobl anabl a sefydliadau sy'n eu cynrychioli, yn ogystal â darparwyr tai. Fe wnaethom ni gynnal cyfarfodydd gyda thenantiaid anabl i wrando ar eu profiad o dai. Fe wnaethom gyfweld amrediad o unigolion a sefydliadau oedd â diddordeb ac arbenigrwydd ym maes tai hygyrch ac addasadwy. Fe wnaethom gomisiynu ymchwil i gofnodi gwir brofiad pobl anabl, gan gynnal adolygiadau llenyddiaeth ac arolwg o Awdurdodau Lleol ar hyd a lled Prydain Fawr. Daw rhai o ystadegau'r awdurdodau yng Nghymru a ddyfynnir yn yr adroddiad, sy'n seiliedig ar yr arolwg yma, o ddadansoddiad mewnol o'r data. Felly nid yw'r holl ystadegau a ddyfynnir yn ymddangos yn adroddiad cyhoeddus yr arolwg hwnnw.

Y cyd-destun yng Nghymru

Mae deddfau a pholisïau tai wedi'u datganoli i Gymru a thros nifer o flynyddoedd, mae'r polisi a'r cyd-destun deddfwriaethol wedi ymwahanu rhywfaint o'r hyn a geir yn Lloegr a'r Alban. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pasio nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth ynglŷn â thai, gan gynnwys Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae hon yn ei gwneud yn ddyletswydd i awdurdodau lleol atal digartrefedd, ac mae'n creu system trwyddedu i landlordiaid. Nod Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016, yw sicrhau y bydd y broses o rentu tŷ yn haws ac yn fwy diogel, a bydd Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018 yn diddymu'r hawl i brynu erbyn 26 Ionawr 2019.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi pasio sawl darn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thai dros y blynyddoedd diwethaf, prin yw'r cyfeiriadau at dai hygrych neu addasadwy, neu at gynorthwyo ag anghenion pobl anabl a'u hawl i fyw'n annibynnol.

Darparu tai fforddiadwy yw prif flaenoriaeth polisïau tai yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol i adeiladu 20,000 o dai newydd fforddiadwy erbyn 2021. Ni osodwyd unrhyw darged penodol o fewn y 20,000 o ran faint a ddylai fod yn dai hygrych; fodd bynnag, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) ac Awdurdodau Lleol fydd yn codi 13,500 o'r tai newydd fforddiadwy, fel rhan o Gytundeb Tai a lofnodwyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r sectorau hyn. Mae Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru yn gofyn bod yr holl dai cymdeithasol newydd sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hadeiladu i Safon Cartrefi am Oes.

“Bydd tai sydd wedi'u dylunio i Safon Cartrefi am Oes yn gyfleus i'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n byw ynddynt, gan gynnwys rhai defnyddwyr cadair olwyn ac ymwelwyr anabl (er nid pob un), heb fod galw am addasiadau sylweddol.”

[\(Cartrefi am Oes\)](#)

Bu ysgogwyr deddfwriaethol eraill i bolisïau tai a chymorth sy'n gysylltiedig â thai yng Nghymru.

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn gofyn i bob corff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effeithiau hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tloedi, anghydraddoldeb iechyd a newid hinsawdd. Mae sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal, lle gall pawb gyrraedd ei botensial, yn un o'r nodau llesiant Mae'r Ddeddf yn cynnig y potensial i wella gwasanaethau a chefnogaeth i bobl anabl yng Nghymru.

Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn manylu ar y ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol, yn benodol o ran gwasanaethau cymorth i bobl anabl, ac o ran y dewis a'r rheolaeth y dylai pobl anabl allu eu hymarfer yn hyn o beth, gan gynnwys dewis ble a chyda phwy y maent am fyw. Mae'r [canllawiau statudol](#) yn datgan: 'Wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o ran pobl anabl sydd ag angen gofal a chymorth a gofalwyr anabl sydd ag angen cymorth, mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi'r sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau.'

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu [Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol](#) a gyhoeddwyd yn 2013. Nod y Fframwaith yw cyflawni rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru sy'n codi o Gonfensiwn y CU ar Hawliau Pobl Anabl. Mae'n cynnwys ymrwymïadau i wella mynediad i dai hygyrch ac addasedig i bobl anabl, ac mae'n annog datblygu Cofrestrau Tai Hygyrch. Nid yw'r Fframwaith ar ei ffurf gyfredol wedi ysgogi newid sylweddol i bobl anabl, ac mae ar hyn o bryd yn cael ei ddiweddarau.

Mae tai hygyrch a chymorth ar gyfer tai yn hanfodol bwysig i bobl anabl, i'w galluogi i fyw bywydau annibynnol, gydag ymreolaeth, urddas a chyfle cyfartal. Mae'r dystiolaeth sydd gennym yn awgrymu bod yr hawliau yma'n cael eu gwrthod i lawer iawn gormod o bobl anabl yng Nghymru.

Yr angen i adeiladu tai mwy hygrych ac addasadwy

Mae angen tai hygrych ar bobl anabl sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion. I rai, gall hynny olygu mân addasiadau, ac i eraill, gallai'r addasiadau fod yn fwy sylweddol, er enghraifft adeiladu ramp i'r drws ffrynt. Mae sicrhau bod yr addasiadau hyn a chreu cartrefi hygrych yn galluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol, yn gyfforddus a chydag urddas.

Mae dau ddeg chwech y cant o'r boblogaeth yng Nghymru'n anabl (Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Adnoddau Teuluol 2015/16) a rhagwelir y bydd y ffigur yma'n cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol. Mae rhagamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru'n dangos y bydd nifer y bobl dros 65 â phroblemau symudedd yn cynyddu o 58 y cant erbyn 2035 (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018) Mae gan dros 250,000 o oedolion yng Nghymru amhariad ar eu symudedd, sef mwy na 10 y cant o'r holl oedolion yng Nghymru (Leonard Cheshire, 2014).

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a nifer y bobl anabl yn cynyddu, mae'r galw am dai hygrych ac addasadwy yn mynd i gynyddu'n sylweddol yn y dyfodol. Oni bai bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, bydd pobl anabl yn gynyddol yn byw mewn tai, lleoedd neu gyd-destunau sy'n gwrthod yr hawl iddynt fyw'n annibynnol.

Yr effaith ar bobl anabl o ganlyniad i fyw mewn cartrefi anhygrych

Rhannodd pobl anabl eu hanesion â ni ynglŷn â'r effaith a gafodd byw mewn cartrefi anhygrych ar eu bywydau. Clywsom am gyfnodau maith o aros i gael cartref hygrych oherwydd diffyg dewis yn eu hardal. Dywedodd pobl wrthym mai ychydig iawn o ddewis oedd pan fyddai eiddo ar gael, ac fe allai olygu bod yn rhaid symud allan o'r gymuned ac oddi wrth rwydweithiau cymorth teulu a chyfeillion.

“Mae gan yr unigolyn rwy'n gofalu amdano anhawster symudedd sy'n wanychol a chynyddol. Pe byddem ni'n symud, byddai'r dewis cyfyng iawn o

dai yn ein hardal wledig fwy neu lai yn gwarantu na fyddai gennym gymaint o annibyniaeth.”

Ymatebwr galwad am dystiolaeth

Clywsom dystiolaeth oddi wrth bobl a ddywedodd wrthym am effaith byw mewn eiddo anhygyrch ar eu bywyd o ddydd i ddydd.

“Alla’ i ddim cyrraedd y llawr cyntaf na’r cyfarpar cegin yn annibynnol. Mae’r ystafell ymolchi’n rhy fach, felly alla i ddim defnyddio’r toiled. Rwy’n cysgu yn yr ystafell a ddylai fod yn ystafell fwyta, felly does gen i fawr o breifatrwydd. Alla’ i ddim gofalu am fy merch ifanc fy hun os yw hi’n sâl oherwydd alla’ i ddim cyrraedd ei llofft. Alla’ i ddim defnyddio’r drws cefn.”

Ymatebwr galwad am dystiolaeth

Clywsom gan rieni â phlant anabl am yr effaith ar y teulu a’r gofaluwr yn sgil byw mewn eiddo nad yw’n diwallu eu hanghenion.

“Mae’n rhaid i mi ei chario hi (fy merch) i fyny’r grisiau os oes angen y toiled arni” Felly mae’n rhaid i mi fod i fyny’r grisiau tra ei bod hi’n cael bath, a’i chodi hi i mewn ac allan ac i’w hymolchi pan fydd hi’n ddrwg. Mae hyn yn effeithio ar fy ngallu corfforol innau ac yn gwneud dolur mawr i’r cefn i. Mae fy merch i hefyd am fod yn annibynnol, ond all hi ddim mynd i mewn nac allan o’r bath.”

Ymatebwr galwad am dystiolaeth

Yn ystod yr ymchwiliad, dywedodd pobl anabl wrthym dro ar ôl tro am y problemau a wynebant wrth geisio cael cartref hygyrch sy’n diwallu eu hangen i fyw’n annibynnol. Clywsom am yr oedi ei hir y mae pobl anabl yn ei wynebu i gael eiddo sy’n cyfateb i’w hanghenion; mewn ambell achos hyd at bum mlynedd neu fwy. Mae hon yn broblem a gafodd ei chydabod yn y dystiolaeth a gawsom oddi wrth y darparwyr tai hefyd.

Cynyddu'r cyflenwad o gartrefi hygyrch ac addasadwy

Bydd angen camau gweithredu a pholisi ar lefel genedlaethol a llywodraeth leol er mwyn cynyddu'r cyflenwad o gartrefi hygyrch ac addasadwy Bydd yn cael ei bennu trwy wneud gwelliannau i bolisi cynllunio, safonau adeiladu, casglu data, cydweithredu, cynllunio tymor hir ac ymgysylltiad pobl anabl.

Ers 2011, mae Rheoliadau Adeiladu sy'n llywodraethu datblygiadau yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, ond ni chafwyd unrhyw newidiadau o sylwedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau bod y tai cymdeithasol y mae'n eu cyllido'n unionyrchol yn cael eu hadeiladu i gyd-fynd â rhai meini prawf hygrychedd ac addasadwyedd, trwy'r Gofynion Ansawdd Datblygu. Mae'r gofynion hyn yn golygu bod pob cartref newydd sydd wedi'i gyllido'n gyhoeddus yn cyflawni'r Safonau Cartrefi am Oes. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd unrhyw gamau i gyflwyno safonau hygrychedd uwch ar gyfer datblygiadau adeiladu yn y sector preifat.

Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru

Mae **Rhan M** – Mynediad i adeiladau a defnydd ohonynt yn datgan y dylid cynnig 'darpariaeth resymol i bobl gael mynediad i adeilad a defnyddio'r adeilad a'i gyfleusterau.' Mae hyn yn golygu y dylai pob cartref newydd sicrhau bod y fynedfa'n wastad, bod cyfleusterau ystafell ymolchi ar y llawr daear, a bod y cartref yn addasadwy.

Yn ôl asesiad Llywodraeth y DU ei hun, wrth adeiladu yn unol â'r Rheoliadau Adeiladu yn Lloegr, mae safon Rhan M4(2) yn cynyddu costau adeiladu o £1,000 y cartref (DCLG, 2014) Yn achos tai llai gydag un neu ddwy ystafell wely, mae gofyn bod â rhagor o dir ar gyfer pob tŷ er mwyn cynnwys mynedfa letach, grisiau a thoiled i lawr y grisiau. Mae Rhan M4(2) yn cyfateb yn fras i Safon Cartrefi am Oes, gan ymgorffori 14 o'r 16 maen prawf.

Yn Lloegr, Mae Rhan M4(3) y Rheoliadau Adeiladu'n darparu ar gyfer safon sy'n gwbl hygrych i gadeiriau olwyn, ac mae'n cynnwys lle i osod lifft trwy'r lloriau. Nid oes safon na rheoliad adeiladu o'r fath yn bodoli yng Nghymru.

Mae addasiadau yn y dyfodol i dŷ a adeiladwyd yn unol â safonau mwy sylfaenol yn nodweddiadol gymhleth a drud, ac mewn ambell achos, gall fod yn uwch na gwerth ailadeiladu'r tŷ gan ddechrau o'r dechrau. Dywedodd datblygwr preifat wrth yr ymchwiliad ei fod yn credu y byddai'r costau adeiladu ychwanegol sy'n gysylltiedig ag adeiladu yn unol â Rhan M4(2) yn ddibwys yn y tymor hirach pe byddent yn dod yn safonol o fewn y diwydiant.

Gofynion Ansawdd Datblygu

Mae Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Leol yn gofyn bod yr holl dai cymdeithasol newydd sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hadeiladu i Safon Cartrefi am Oes. Set o 16 o feini prawf dylunio yw'r Safon Cartrefi am Oes.

“Bydd dylunio anheddau i'r safonau yma'n arwain at gartrefi sy'n hygyrch ac yn gyfleus i'r holl denantiaid, ac sy'n fwy addasadwy ar gyfer anghenion hirdymor. Bydd yn sicrhau bod anheddau'n fwy hygyrch i'r ifanc, yr hen, pobl ar eu pennau'u hunain, teuluoedd, a'r rhain sy'n datblygu amhariad corfforol.”

(Llywodraeth Cymru, 2005)

Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)

Mae WHQS Llywodraeth Cymru'n gofyn bod pob landlord cymdeithasol yn gwella'i stoc dai i lefel dderbyniol erbyn 2020. Mae Rhan VII y ddogfen yn ei gwneud yn eglur bod angen sicrha, cymaint ag y bo modd, bod y llety'n diwallu anghenion yr aelwyd, gan gynnwys gofynion pobl anabl.

O 31 Mawrth 2017, roedd 86 o dai cymdeithasol yng Nghymru'n cydymffurfio â'r WHQS (Llywodraeth Cymru, 2017) Roedd nifer o'r bobl anabl y buom yn siarad â hwy yn bositif am y gwelliannau a wnaed i'w cartrefi dan y WHQS.

Astudiaeth achos

Fel arfer, dim ond cartrefi cymdeithasol newydd sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru sy'n gorfod cydymffurfio â'r Gofynion Ansawdd Datblygu Yng Nghyngor Casnewydd, ymgorfforwyd y Gofynion yn y polisi cynllunio lleol ar gyfer Cymdeithasau Tai. Pan fydd Cymdeithasau Tai yn datblygu tai fforddiadwy sy'n cydymffurfio â TAN 2, gan gynnwys perchnogaeth cartrefi cost-isel, rhentu canolradd a rhan berchnogaeth, mae gofyn i hynny gydymffurfio â'r Gofynion Ansawdd Datblygu Mae hyn yn mynd y tu hwnt i gydymffurfiaid Llywodraeth Cymru, trwy gynnwys deiliadaethau eraill yn ogystal â thai cymdeithasol ar rent.

Er gwaethaf camau gweithredu Llywodraeth Cymru trwy'r Gofynion Ansawdd Datblygu a gwella'r stoc bresennol trwy WHQS, mae llywodraethau ar lefel genedlaethol a lleol, ynghyd darparwyr tai, yn cytuno bod tangyflenwad o dai hygyrch. Mae hyn yn golygu bod gormod o bobl anabl yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn diwallu eu gofynion.

Pe byddai pob cartref newydd yng Nghymru yn cael ei adeiladu yn unol â'r Gofynion Ansawdd Datblygu, a'r Safon Cartrefi am Oes, byddai hyn yn golygu y byddai'r stoc dai newydd yng Nghymru yn gallu ymgodymu â'r dyfodol ac yn addas i ddiwallu anghenion newidiol pobl anabl. Byddai potensial yn sgil hyn i arbed arian ar addasu tai anhygyrch.

Mae'n bwysig nodi na fydd cartrefi a adeiledir i'r Safon Cartrefi am Oes yn diwallu anghenion rhai pobl anabl. I lawer o ddefnyddwyr cadair olwyn, bydd angen cartrefi pwrpasol arnynt sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae angen camau gweithredu brys i sicrhau bod y tai sy'n cael eu datblygu yn y dyfodol yn addasadwy, bod yna gyflenwad digonol o dai hygyrch, a bod y tai yn diwallu anghenion poblogaeth sy'n newid.

Polisi cynllunio

Mae gan Llywodraeth genedlaethol a lleol gyfle trwy drefniadau cynllunio effeithiol i fynd i'r afael â'r diffyg tai hygyrch ac addasadwy.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016) yn gofyn i awdurdodau cynllunio lleol gynnwys targedau ymhob cwr o'r awdurdod ar gyfer tai fforddiadwy, ar sail Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol Nid oes gofynion fel hyn yn bodoli o ran gosod targedau ar gyfer adeiladu cartrefi hygyrch ac addasadwy. Gwelodd ein harolwg o awdurdodau lleol mai dim ond un awdurdod yng Nghymru a osododd darged o'r fath (EHRC, 2018).

Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn manylu ar ddisgwyliad y dylai cynllunwyr ystyried anghenion amrywiol pobl eu cymuned.

“Dylai awdurdodau cynllunio a datblygwyr ystyried problem hygyrchedd i bawb, gan gynnwys anghenion pobl ag amhariad ar y synhwyrau, pobl ag anabledau dysgu, pobl ag amhariad symudedd, er enghraifft defnyddwyr cadeiriau olwyn, yr henoed, a phobl â phlant ifanc, yn gynnwys yn y broses ddylunio.”

Er gwaethaf y canllawiau yma, gwelodd ein hymchwiliad nad oedd llawer o'r awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn cyflawni'r gofynion yma. Mynegodd pobl anabl a Sefydliadau Pobl Anabl (DPO) bryder am y graddau y mae awdurdodau lleol yn ymgynghori â phobl anabl ac yn eu cynnwys yn y cynllunio.

Yn 2018, dechreuodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i adolygu canllawiau Polisi Cynllunio Cymru i adlewyrchu'r gofynion dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf hon yn gofyn bod y cyrff cyhoeddus a restrwyd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru. Mae'r 'pum ffordd o weithio' y manylwyd arnynt yn y Ddeddf yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn:

- cydbwysu effaith hirdymor eu penderfyniadau yn erbyn anghenion tymor byr
- gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu
- gweithio ar y cyd
- cynnwys pobl sydd â buddiant, ac yn
- sicrhau eu bod yn integreiddio'r nodau llesiant yn yr amcanion a osodant.

Gallai cymhwyso'r dyletswyddau a'r 'pum ffordd o weithio' yn y Ddeddf i gyfarwyddo polisi cynllunio fod yn ffordd dda o fynd i'r afael â'r prinder tai hygyrch ac addasadwy. Mae pobl anabl yn arbenigwyr wrth bennu eu hanghenion eu hunain a hyrwyddo gwell atebion, felly bydd cynnwys pobl anabl yn y cyfnod strategol a gweithredol wrth lunio penderfyniadau am dai yn gam effeithiol Bydd hyn yn dilyn y ddwy 'ffordd [gyntaf] o weithio', gan y bydd buddsoddi mewn cartrefi hygyrch ac addasadwy yn dod â manteision yn ei sgil yn y tymor hir oherwydd bydd y costau i'r gwasanaethau, megis y GIG a gofal cymdeithasol, yn disgyn o ganlyniad i bobl anabl yn llwyddo i fyw'n annibynnol.

Y bylchau yn y dystiolaeth

Yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban, nid oes Arolwg wedi'i gynnal o Gyflwr Tai yng Nghymru ers 1998 ac, er bod Arolwg Byw yng Nghymru'n cynnwys sawl cwestiwn am ansawdd tai, nid yw'r rhain mor fanwl ag y byddent mewn arolwg tai. Mae hyn yn golygu bod y data ar gartrefi hygyrch ac addasadwy yng Nghymru yn annigonol.

Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru i gynnal Arolwg newydd o Gyflwr Tai yng Nghymru ar gyfer 2017-18 yn ddatblygiad i'w groesawu Dylai'r data newydd hyn helpu i wella cyflwr tai hygyrch ac addasadwy yng Nghymru.

Gwael yw ansawdd y data sy'n cael eu cadw a'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol am nifer y bobl anabl sy'n byw yng Nghymru a'u hanghenion a'u hamhariadau penodol. Dim ond 15 y cant o'r awdurdodau lleol oedd yn dweud bod defnyddioldeb y data a gadwant ar y rhai sydd angen tai hygyrch 'yn dda' (EHRC, 2018). Dywedodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wrthym eu bod yn dibynnu ar y data hyn ar gyfer eu prif ddogfennau strategol, i ddarparu tystiolaeth o'r angen am

wahanol fathau o dai, a dim ond 26 y cant o'r awdurdodau yng Nghymru oedd wedi comisiynu arolwg mewnol.

Dywedwyd bod y diffyg tystiolaeth genedlaethol a lleol am y cyflenwad a'r galw am gartrefi hygyrch ac addasedig yn rhwystr sylweddol wrth wneud cynlluniau effeithiol i gynyddu'r cyflenwad.

“Byddai'n ddefnyddiol pe byddai trydydd parti'n gallu casglu data ar ein rhan. Mae problem adnoddau'n ei gwneud hi'n gynyddol anodd cynnal ymchwil leol gadarn er mwyn dylanwadu ar bolisi.”

Awdurdod unedol, De Cymru

Fe wnaethom ni ofyn i awdurdodau lleol am y data oedd ganddynt ar hygyrchedd tai ar y farchnad yn eu hardal, h.y. tai perchen-feddianwyr neu dai ar osod, nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddiben dyrannu i'r aelwydydd sy'n gwneud cais i'r awdurdod lleol am help gyda thai. Dywedodd tri deg wyth y cant o awdurdodau lleol bod y wybodaeth oedd ganddynt am y math yma o eiddo yn 'wael iawn' neu'n 'wael'. Dywedodd tri deg tri y cant wrthym nad oeddent yn gwybod pa wybodaeth oedd ganddynt (EHRC, 2018) Mae hyn yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn dibynnu ar sail tystiolaeth wan wrth asesu'r ddarpariaeth tai yn eu hardal sydd ar gael i ddiwallu anghenion pobl anabl.

Gallai hyn fod yn rhwystr sylweddol i adeiladu tai hygyrch newydd; os na all yr awdurdod lleol brofi bod diffyg tai fforddiadwy yn lleol, gallant ei chael yn fwy anodd yn ystod trafodaethau i ddadlau y dylai datblygwyr eu darparu.

Cytunodd nifer sylweddol o awdurdodau lleol y gall fod yn anodd annog datblygwyr i adeiladu tai hygyrch, gan eu bod yn cael eu hystyried yn ddrutach ac yn dod â llai o elw iddynt. Dim ond 55 y cant o awdurdodau yng Nghymru sy'n cytuno bod datblygwyr wedi cydymffurfio â'r rheoliadau hygyrchedd.

“Ni fydd datblygwyr yn adeiladu cartrefi hygyrch ar y farchnad i safon uwch na'r rheoliadau adeiladu oni bai eu bod yn credu bod modd eu gwerthu am bris sy'n ystyried maint ehangach yr ôl-troed ac felly lefel is y dwysedd.”

Awdurdod lleol, Gorllewin Cymru

Beth sydd angen ei newid?

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswyddau dan Adran 149 y Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) i roi'r sylw dyledus i

anghenion pobl anabl. Yng Nghymru, mae dyletswyddau penodol sy'n cynnwys gofyniad i ymgysylltu â phobl anabl, cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (EIA) a chasglu'r wybodaeth berthnasol yn ategu'r dyletswyddau yma.

Clywsom gan bobl anabl a grwpiau rhanddeiliaid nad yw awdurdodau lleol yn ymgysylltu'n effeithiol â hwy wrth iddynt baratoi eu cynlluniau strategol allweddol ar gyfer tai. Mae'n destun pryder bod ein harolwg wedi darganfod mai 55 y cant yn unig o awdurdodau lleol sy'n dweud eu bod yn cynnal EIA ar eu Cynllun Datblygu Lleol; dim ond 20 y cant sy'n dweud eu bod yn cynnal EIA ar eu Hasesiad o'r Farchnad Dai Leol; a dim ond 15 y cant sy'n dweud bod anghenion tai pobl anabl yn destun trafodaeth benodol neu graffu wrth gynnal Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (EHRC, 2018).

Gallai gosod targedau ar gyfer adeiladu cartrefi hygyrch mewn datblygiadau newydd a gorfodi cydymffuriad pob cartref newydd â Gofynion Ansawdd Datblygu fod yn fodd o sicrhau ein bod yn adeiladu'r math cywir o gartref a fydd yn diwallu anghenion pobl anabl yn y dyfodol. Rydym hefyd yn galw am adeiladu 10 y cant o'r holl gartrefi newydd yn unol â safonau uwch sy'n cynnwys hygyrchedd i gadeiriau olwyn.

Os gall awdurdodau lleol ddarparu tystiolaeth gadarn o ofyniad am dai hygyrch a/neu addasadwy yn awr a/neu yn y dyfodol, gallant, trwy'r system gynllunio, ei gwneud yn ofyniad i ddatblygwyr tai newydd gyflenwi hyn (EHRC, 2018).

Mae'n hanfodol wrth ddatblygu cynlluniau ac asesiadau tai strategol, bod awdurdodau lleol yn gallu defnyddio data cadarn ar hygyrchedd eu stoc dai a'r galw am y math yma o dai. Dylai awdurdodau lleol ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl anabl er mwyn deall yn well beth yw eu hanghenion a'u gobeithion, ac asesu effaith eu penderfyniadau.

Argymhellion

Mae egwyddorion byw'n annibynnol yn cydnabod mai pobl anabl yw'r arbenigwyr gorau i bennu a hyrwyddo atebion gwell. Mae angen i Lywodraethau ar lefel genedlaethol a lleol fod llawer yn fwy effeithiol wrth annog ymgysylltiad pobl anabl, yn strategol ac yn weithredol, er mwyn adlewyrchu'u mewnbwn mewn ffordd ystyrlon, mewn cylch o wella parhaus.

Rydym yn galw am y canlynol:

- I **Lywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth genedlaethol** i sicrhau bod cyflenwad digonol o dai ar gael sydd wedi'u hadeiladu'n unol â safonau dylunio cynhwysol/cyffredinol a safonau sy'n cynnwys hygyrchedd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ar gyfer pob math o ddeiliadaeth. Dylai hyn gynnwys adolygiad o'r ffordd y bydd safonau adeiladu'n cael eu gorfodi, yn enwedig yn y sector rhentu preifat. Dylai'r strategaeth gydnabod bod angen cymorth, cyngor ac eiriolaeth tai yn aml er mwyn galluogi pobl i gadw eu tai a'u hawl i fyw'n annibynnol.
- I Lywodraeth genedlaethol a llywodraethau lleol gymryd camau i wella'r ffordd y bydd **data'n cael eu casglu a'u rhannu**, o ran gofynion pobl anabl ac o ran hygyrchedd y stoc dai bresennol.
- I Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofyniad bod pob cartref newydd yn cael ei adeiladu yn unol â Gofynion Ansawdd Datblygu a gorfodi awdurdodau lleol i sicrhau bod 10 y cant o **gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yn unol â safonau sy'n cynnwys hygyrchedd i gadeiriau olwyn**.
- I Lywodraeth Cymru **gyhoeddi data blynyddol ar nifer y cartrefi hygyrch, addasadwy a hygyrch i gadeiriau olwyn** a adeiladwyd.
- I'r awdurdodau lleol **gymhwyso'r pum ffordd o weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn eu cynlluniau strategol** ar gyfer cartrefi hygyrch, yn enwedig wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol ac Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol.
- I'r Awdurdodau lleol gyhoeddi **Asesiadau Effaith Cydraddoldeb** ochr yn ochr â'u Cynlluniau Datblygu Lleol a'u Hasesiadau o'r Farchnad Dai Leol.

Gwella'r gwaith o addasu cartrefi

Mae addasiadau'n dyngedfennol bwysig wrth gefnogi pobl i allu byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Er bod llawer enghraifft o arfer da wrth gyflenwi ac addasu cartrefi ar hyd a lled Cymru, mae pobl anabl yn teimlo bod y broses o wneud yr addasiadau'n gymhleth ac yn araf deg.

Gall addasu cartref wella'i ddefnyddioldeb a galluogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth. Gall addasiadau amrywio o fân addasiadau cymharol rad, megis gosod canllawiau cydio, neu ramp ger y drws, clychau drws sy'n fflachio ar gyfer pobl ag amhariad ar eu clyw, neu ddefnyddio lliwiau penodol i bobl ar gyfer pobl ag amhariad ar eu golwg, hyd at addasiadau sylweddol sy'n cynnwys newidiadau strwythurol, megis estyniad i gartref er mwyn darparu ystafell wely ychwanegol neu ystafell ymolchi i lawr y grisiau.

Pob blwyddyn yng Nghymru, bydd oddeutu 70 sefydliad yn creu addasiadau i gynorthwyo tua 32,000 o bobl. Yn ôl arolwg diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru adroddwyd bod y nifer wedi cynyddu o 11.7 y cant rhwng 2013-14 a 2015-16 (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).

Mae polisiâu wedi dangos diddordeb cynyddol ym manteision addasu cartrefi, yn enwedig o ran y modd y gallant leihau costau iechyd a gofal cymdeithasol. Gall darparu addasiadau'n amserol arwain at arbedion cost sylweddol, gan eu bod yn helpu i osgoi cyfnodau hir mewn ysbytai, neu'r angen am opsiynau tai mwy dwys, fel cartrefi gofal (ODI, 2007) Mae Gofal a Thrwsio Cymru, sy'n gwneud mân addasiadau gwerth hyd at £350, yn amcangyfrif bod pob £1 sy'n cael ei wario ar ei raglen Addasiadau Brys yn golygu arbed cost o £7.50 i'r GIG a gofal cymdeithasol (Gofal a Thrwsio Cymru, 2011). Yn ôl amcangyfrif mewn astudiaeth o Seland Newydd, mae rhyw 60 y cant o'r achosion o gwmpo yn digwydd yn y cartref, a chafodd bod addasiadau cymharol isel eu cost yn gallu lleihau nifer y rhain o ryw 26 y cant (Keall et al., 2015).

Adroddodd pobl anabl ledled Cymru, Lloegr a'r Alban am sefyllfa debyg iawn o ran yr addasiadau. Clywsom sawl enghraifft o addasiadau yn effeithio'n bositif ar fywydau

pobl. Mae hyn yn adlewyrchu darganfyddiadau adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru bod 'oddeutu tri chwarter y rhai a gafodd eu holi a oedd wedi derbyn addasiad i'w cartrefi wedi cael y profiad yn un positif....' (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).

Cyllido addasiadau

Mae pobl anabl a Sefydliadau Pobl Anabl (DPO) yn y tair gwlad wedi adrodd bod nifer o broblemau gyda'r systemau addasu sydd ar gael. Roedd canfyddiad bod y cyllid wedi dod i ben. Credai pobl anabl fod toriadau yn y gyllideb wedi effeithio ar allu awdurdodau lleol i ymateb i'w hanghenion. Dywedodd dros hanner o awdurdodau lleol Cymru - 52 y cant - fod diffyg cyllideb yn her sylweddol (EHRC, 2018).

Yng Nghymru, ceir nifer o grantiau sy'n cyllido addasiadau ar gyfer gwahanol fathau o ddeiliadaethau, ac mae'r cyfan yn cael eu cynnwys mewn un system o'r enw Hwyluso – Cymorth i Fyw'n Annibynnol, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017. Bwriad y system, fel y disgrifir hi gan Lywodraeth Cymru, yw hwyluso gallu pobl anabl a phobl eraill i gael cyllid ar gyfer addasiadau i'w cartrefi gan ddefnyddio tair lefel fras o gymorth.

- 'Bach' e.e. Canllawiau cydio a rheiliau grisiau.
- 'Canolig' e.e. Addasiadau megis cawodydd cerdded-i-mewn, lifftiau grisiau a rampiau.
- 'Sylweddol' e.e. Addasiadau sy'n gofyn am newidiadau strwythurol mawr a/neu estyniadau i eiddo.

Ymhlith y ffrydiau cyllid ar gyfer addasiadau yng Nghymru mae'r canlynol:

- Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG), sydd ar gael i berchennog-feddianwyr, tenantiaid y sector preifat a landlordiaid, a rhai tenantiaid tai cymdeithasol. Dyma brif ffynhonnell cyllid addasiadau yng Nghymru, gan ei fod yn cyfrif am 55 y cant o'r holl wariant (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).
- y Grant Addasiadau Ffisegol (PAG), sef cronfa Llywodraeth Cymru o £8m y flwyddyn, ar gael i denantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL).
- rhaglen Addasiadau Brys, sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru a'i chyflenwi gan Trwsio a Gofal Cymru ar gyfer perchennog-feddianwyr a thenantiaid a landlordiaid yn y sector preifat

- rhai addasiadau sy'n cael eu cyllido gan raglenni cynnal a chadw awdurdodau lleol a Chymdeithasau Tai.

Ceisio addasiad - system gymhleth

Dywedodd pobl anabl wrthym fod y system ar gyfer ceisio addasiad yn gymhleth ac yn ddryslyd. Mae'r mynediad i wahanol ffrydiau cyllid yn dibynnu ar ddeiliadaeth y cartref, ac ar statws eich landlord os ydych yn byw mewn cartref landlord cymdeithasol. Yn aml, diffyg gwybodaeth a chynghor ynglŷn â'r modd o gael y cyllid oedd un o'r rhesymau y nodwyd ei fod yn rhwystr.

Clywsom gan bobl anabl a DPO fod anghydraddoldebau yn y system ar gyfer derbyn yr addasiadau. Gallai cael cyllid ar gyfer addasiadau ddibynnu ar ddeiliadaeth eich cartref. Mae DFG yn destun prawf moddion gydag uchafswm o £36,000, ond nid oes prawf moddion ar gyfer PAG Llywodraeth Cymru. Canlyniad hyn yw bod pobl anabl ag anghenion tebyg yn derbyn gwahanol ymatebion, gan ddibynnu ar ddeiliadaeth eu cartref a statws eu landlordiaid. Dywedodd pobl wrthym fod y profiad yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall.

Cafodd ein hymchwiliad fod yna amharodrwydd ymhlith pobl anabl i ofyn i landlordiaid preifat am addasiadau - ymhlith y rhesymau a nodwyd oedd diffyg gwybodaeth o'r ddau du ynghylch y cyllid a oedd ar gael a'r broses y byddai angen ei dilyn, dryswch ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am gynnal a chadw'r addasiad pe byddai wedi'i gyllido trwy grant i'r tenant, a faint o hyblygrwydd oedd yr awdurdod yn ei ddefnyddio o ran meini prawf asesu ar gyfer DFG, sydd weithiau'n gallu effeithio ar y tebygolrwydd y bydd cartref yn cael ei addasu.

“Rwy'n cysgu i lawr y grisiau, a dydw i ddim yn gallu mynd i'r ystafell ymolchi i fyny'r grisiau yn aml, dim ond y toiled i lawr y grisiau. 'Fydd fy landlord ddim yn caniatáu newidiadau i'r eiddo, felly alla' i ddim cael canllawiau cydio angenrheidiol, na'r cymhorthion eraill, sydd unwaith eto'n fy ngwneud i'n fwy dibynnol ar y gofalwyr ac sy'n cyfyngu ar f'annibyniaeth.

Ymatebwr galwad am dystiolaeth

Mae cyfleoedd posibl yng Nghymru trwy'r cynlluniau trwyddedu a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Cyflwynodd y ddeddfwriaeth hon gynllun gofrestru a thrwyddedu gorfodol, sef Rhentu Doeth Cymru, ar gyfer landlordiaid y sector rhentu preifat, ac mae'r cynllun yn cynnwys hyfforddiant. Gellid defnyddio cynllun Rhentu

Doeth Cymru i hyrwyddo a hysbysu landlordiaid o'r cynlluniau cyllid a manteision addasiadau.

Amseroedd aros ac oedi

Dywedodd pobl anabl wrthym am yr oedi hir oedd o'u blaenau cyn derbyn yr addasiadau gofynnol i'w cynorthwyo i fyw'n annibynnol Cawsom fod yna sawl ffactor a allai achosi oedi.

Dywedodd pobl wrthym am yr oedi hir cyn cwblhau asesiadau'r Therapyddion Galwedigaethol (OT) oedd wedyn yn argymhell yr addasiad priodol. Roedd cydnabyddiaeth eang ymhlith ddarparwyr a derbynwyr bod y gwasanaethau Therapi Galwedigaethol yn brysur iawn, a bod hyn yn arwain at yr oedi.

Cafodd adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru bod 64 y cant o landlordiaid yn dweud eu bod yn gorfod aros o ganlyniad i gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid PAG; fodd bynnag, dywedodd darparwyr tai wrthym fod y PAG yn gweithio'n fwy effeithiol na'r DFG, sy'n cyd-fynd â darganfyddiadau arolygon blaenorol.

Mae gwaith ar y gweill trwy raglen HWYLUSO Llywodraeth Cymru, i gyflwyno safonau ac amseroedd aros mwy cyfartal ar sail lefel yr addasu yn hytrach nag ar sail y grant a ddefnyddir.

Yn ein harolwg o awdurdodau lleol, gofynasom am y terfynau amser ar gyfer cymeradwyo ceisiadau ac yna mynd ati i ddarparu'r addasiadau dan system DFG.

O'r rhai a oedd â data ar gael, dywedodd 47 o'r awdurdodau lleol yng Nghymru eu bod yn cyhoeddi penderfyniad o fewn chwech wythnos (EHRC, 2018). Ar ôl cymeradwyo'r addasiad, rhaid ei ddarparu, proses y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ei threfnu, fel arfer. Dim ond 21 y cant o awdurdodau lleol Cymru oedd yn dweud eu bod yn cwblhau addasiad o fewn wyth wythnos. 18 wythnos, ar gyfartaledd, yw'r cyfnod o'r cais hyd at gwblhau'r ddarpariaeth yng Nghymru (EHRC, 2018)

Gweithio ar y cyd â phobl anabl i wella addasiadau

Dywedodd pobl anabl wrthym eu bod wedi cael problemau gyda gwaith addasu Clywsom gan bobl anabl am eu profiad o addasiadau oedd wedi'u gosod yn

anghywir, gan arwain at ragor o oedi cyn i'r addasiadau terfynol cael eu cwblhau. Dywedodd Sefydliadau Pobl Anabl wrthym y gall ansawdd yr addasiadau ddibynnu ar bwy sy'n cael eu contractio i wneud yr addasiadau a'r ymwybyddiaeth ymysg contractwyr o anghenion pobl anabl.

Dywedodd pobl anabl nad oeddent yn teimlo bod eu landlordiaid yn cysylltu â hwy wrth i'r addasiadau gael eu gwneud. Teimlai llawer o bobl pe byddai'r ymgysylltiad wedi digwydd yn gynt, byddai'r gwaith wedi'i gwblhau'n fwy effeithlon. Dywedodd pobl fod hyn yn golygu cost ariannol ychwanegol i'r landlord, yn ogystal ag oedi cyn cwblhau'r addasiad. Hysbysodd DPO fod hyn yn broblem gyda mân addasiadau, mewn tai cymdeithasol cyffredinol yn bennaf.

Mae'r canlyniadau gorau a chyflymaf i'w gweld lle mae gan adrannau tai eu Therapyddion Galwedigaethol eu hunain sy'n asesu anghenion pobl anabl ar gyfer addasiadau, neu lle cyflogir y Therapyddion hyn o fewn y Gofrestr Tai Hygyrch. Clywsom fod y manteision i bobl anabl ac awdurdodau lleol yn cynnwys cyfateb yr unigolyn a'r eiddo, gan wneud y defnydd gorau bosibl o adnoddau; llai o wrthodiadau; a llai o alw ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rôl cyngor a gwybodaeth

Cawsom fod cyngor a chymorth ar gyfer tai yn fylchog ei natur ac yn anghyson Mae pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn llawer mwy tebygol o fod yn ymwybodol o ffynonellau cyngor, cymorth a gwybodaeth ynghylch addasiadau na pherchnogion tai, neu'r rheiny sy'n byw mewn lletyau rhentu preifat. Fodd bynnag, clywsom gan nifer o bobl anabl eu bod yn wynebu problemau wrth geisio cael gwybodaeth ddibynadwy a chyngor i'w cynorthwyo wrth iddyn nhw wneud cais am addasiad. Dywedwyd bod y gallu i gael gwybodaeth a chyngor yn benodol yn broblem i bobl anabl ag amhariad ar y synhwyrau, a oedd yn darganfod bod landlordiaid yn gynyddol analluog i ddarparu cymorth neu fformatau eraill iddynt i hwyluso'r cyfathrebu.

Roedd yr adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru (2018), 'Addasiadau Tai', yn nodi problemau tebyg, gan ddatgan "Yn aml, ni fydd gwybodaeth hygyrch ar gael mewn amrywiaeth o ffurfweddau priodol, fel ffontiau mawr i ddefnyddwyr â nam ar y golwg, fersiynau sain i bobl ag anawsterau clyw" (t.9).

Beth sydd angen ei newid?

Mae angen gwella addasiadau ar lefel awdurdod lleol, gan fod pobl anabl yn aros yn rhy hir i gael eu hasesu ac yna'n aros am yr addasiadau.

Mae darparu'r gwasanaeth hefyd yn gwella lle mae timau amlddisgyblaeth yn cydweithio ac yn annog pobl anabl i ymgysylltu yn y broses benderfynu.

Mae angen i awdurdodau lleol roi gwell cyhoeddusrwydd i DFG a mynd i'r afael â'r gamddealltwriaeth gyffredin 'nad oes unrhyw arian ar gael', sy'n gallu arwain pobl i dybio nad oes gwerthu mewn ceisio cyngor a chymorth. Mae angen darparu cyngor ac eiriolaeth, i helpu pobl anabl ymhob math o ddeiliadaeth.

Mae rhentu yn y sector preifat yn arbennig o anodd i bobl anabl. Mae angen i landlordiaid yn y sector preifat ac asiantau gosod tai yng Nghymru gael y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeddfwriaeth a'r polisiau ynghylch addasiadau i'r cartref ac addasu rhesymol. Un ffordd o sicrhau hyn fyddai cynnig hyfforddiant arbrofol ar hygyrchedd ac addasadwyedd i landlordiaid yn y sector preifat fel rhan o gynllun Rhentu Doeth Cymru.

Argymhellion

Rydym yn galw am y canlynol:

- I awdurdodau lleol fynd i'r afael ar frys â'r **rhwystrau a'r oedi biwrocraidd yn y systemau addasiadau** i sicrhau bod modd cyflawni mân addasiadau cost isel, yn arbennig, yn gyflym ac yn rhwydd.
- I Lywodraeth Cymru ddarparu **cyllid ychwanegol i sefydliadau pobl anabl ac asiantaethau cyngori er mwyn sicrhau bod rhagor o gyngor annibynnol a gwybodaeth ar gael ynghylch dewisiadau tai, gan gynnwys addasiadau, gyda ffocws arbennig ar y sector rhentu preifat.**
- I Lywodraeth Cymru gynnig hyfforddiant arbrofol i landlordiaid yn y sector preifat fel rhan o gynllun Rhentu Doeth Cymru, i drwyddedu landlordiaid ac asiantau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Cyfateb cartrefi i'r bobl sydd â'u hangen

Mae cyfran uchel o bobl anabl mewn tai cymdeithasol oherwydd y rhent fforddiadwy is, sicrwydd y ddeiliadaeth a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu. Ond mae'r galw am dai cymdeithasol yn uwch na'r cyflenwad, ac mae'r polisïau a'r arferion yn aml yn anfanteisiol i bobl anabl.

Yn ystod yr ymchwiliad, rhannodd pobl anabl eu profiadau â ni o'r heriau a wynebant wrth geisio tai sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Yn ôl llawer o bobl anabl, roedd y prosesau a'r systemau i wneud cais am dai hygrych yn gymhleth ac yn anodd eu deall.

Mae pobl anabl yn tueddu i wynebu mwy o oedi cyn cael cartref mewn llety addas; mae darparwyr tai'n cydnabod hyn. Clywsom rai achosion o bobl yn aros dros bum mlynedd i gael lle mewn tai priodol. Y prif ffactorau oedd prinder eiddo hygrych ac addasedig, diffyg gwybodaeth a chyngor, ac oedi yn ystod yr asesiad. Mae ceisio cyngor a gwybodaeth yn gynyddol anodd, yn enwedig i bobl â nam ar y synhwyrau.

Mae cymaint o ddiffyg tai cymdeithasol, a chyn lleied o eiddo hygrych neu wedi'u haddasu nes bod angen sawl blwyddyn weithiau i denantiaid anabl ddod o hyd i lety priodol. Mae'r diffyg gwybodaeth ynglŷn â pha eiddo sy'n hygrych, y diffyg manylion ynghylch addasiadau i'r eiddo, a phwysau ar ymgeiswyr i dderbyn eiddo anaddas yn gwneud y cyfan yn waeth.

Clywsom gan bobl anabl a oedd yn teimlo nad oedd ganddynt fawr o ddewis o ran yr eiddo a gynigiwyd iddynt. Roedd pobl yn teimlo eu bod yn wynebu gwahaniaethu, yn enwedig yn y sector rhentu preifat, os oeddent yn derbyn budd-daliadau.

“Rwy’ mewn sefyllfa lle nad oes gan fy nghyngor unrhyw beth ar fy nghyfer i, yn dweud y gallaf rentu’n breifat, ond bob trwy rwy’n chwilio, rwy’n cael fy nhroi ymaith am fy mod i ar fudd-daliadau. Mae’r straen yn fy ngwneud i’n sâl ac mae gen i 5 wythnos i adael fy nghartref presennol a does gen i’r un lle i fynd.”

Ymatebwr galwad am dystiolaeth

Dyweddodd pobl anabl eu bod yn teimlo dan bwysau i dderbyn eiddo anaddas, ac weithiau y byddai gofyn iddynt symud allan o'u cymunedau lleol, lle mae ganddynt rwydweithiau cymorth o deuluoedd a chyfeillion. Mae pobl yn pryderu os nad ydynt yn derbyn yr eiddo sy'n cael eu cynnig iddynt, bydd eu henwau'n cael eu diddymu o'r rhestrau tai.

“I bob pwrpas, roedden nhw'n dweud 'dyma ry'n ni'n ei gynnig i chi. Os na chymerwch chi hwn, bydd eich enw'n cael ei dynnu o'r rhestr'. I bob pwrpas ches i ddim dewis am y peth, ac roedd gen i blentyn 13 blwydd oed ar y pryd. Doedd gennym ni ddim dewis - roedd yn rhaid i ni gymryd yr eiddo.”

Unigolyn gafodd ei gyfweld fel rhan o'r ymchwil profiad byw

Roedd rhai grwpiau o bobl anabl yn wynebu heriau ychwanegol wrth wneud cais am gartrefi hygyrch a chael eu cyfateb ag eiddo. Mae'r duedd i gynnig proses ymgeisio ar-lein, ynghyd â'r diffyg cyngor a gwasanaethau eiriolaeth, yn golygu bod gwneud cais am gartref yn gallu bod yn anodd i rai pobl ag anawsterau dysgu. Mae pobl anabl hefyd yn debygol o gael eu heithrio'n ddigidol, efallai oherwydd nad yw'r dechnoleg yn rhwydd iddynt ei defnyddio, neu nad oes mynediad ganddynt i'r rhyngwrwyd neu lefelau isel o lythrennedd digidol. Mae saith deg pump y cant o bobl anabl, neu'r rhai â salwch neu lesgedd tymor hir yn defnyddio'r rhyngwrwyd, o'u cymharu â 90 y cant o'r rheiny heb gyflwr o'r fath (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mae diffyg ymgysylltiad â phobl anabl a chamddealltwriaeth awdurdodau lleol o'u hanghenion yn rhwystr o bwys yn y broses ddyrannu. Gall hyn fod yn waeth i bobl â chyflyrau iechyd meddwl. Gall unigolion wynebu llawer iawn o ragfarn gan ddarparwyr tai oherwydd camdybiaeth ac ystrydebau. Mae ymchwil yn dangos bod y straen ychwanegol yma'n aml yn gwaethygu neu hyd yn oed yn achosi cyflyrau iechyd meddwl (Mind, 2017).

Ychydig o ddealltwriaeth sydd o'r gwahanol fathau o gymorth sy'n angenrheidiol i bobl ag anabledau dysgu er mwyn byw'n annibynnol. Clywsom fod pobl ag anabledau dysgu yn aml yn cael lletyau anghenion cyffredinol, heb fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r cymorth y gallai fod ei angen arnynt gan gyfeillion a theulu, neu'n cael eu cartrefu mewn ardaloedd eraill a fyddai'n golygu eu bod yn unig a lle gallent fod mewn perygl y byddai rhywun yn aflonyddu arnynt.

Sut y mae polisïau dyrannu yn gweithredu'n ymarferol?

Mae'r Llywodraeth Leol yn ei Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol (2013) yn annog awdurdodau lleol yng Nghymru i ddatblygu Cofrestrau Tai Hygyrch. Gellir ystyried y rhain yn syml fel rhestr o gartrefi addas i bobl anabl ag anghenion mynediad penodol. Maent fel arfer yn cynnwys rhestr o eiddo hygyrch a/neu restr o breswylwyr sydd ag angen cartrefi hygyrch.

Er bod y dulliau o ymdrin â hyn yn amrywio, yn ymarferol, maent wedi'u rhestru i roi ffordd i ddarparwyr tai gategoreiddio'u heiddo fel bod ymgeiswyr yn gwybod yn well a fydd eiddo'n diwallu'u hanghenion ai peidio Mae hyn yn ei dro yn helpu darparwyr tai i wneud y defnydd gorau o'r stoc sydd ar gael ganddynt.

Mae pump deg dau y cant o awdurdodau lleol Cymru yn defnyddio Cofrestr Tai Hygyrch (EHRC, 2018). Cafodd arolwg yn 2016 fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru yn teimlo bod Cofrestr Tai Hygyrch yn effeithiol iawn wrth ddiwallu anghenion pobl anabl, ac yn eu galluogi i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, gan arbed arian (Llywodraeth Cymru, 2016).

Dywedodd nifer o ddarparwyr tai eu bod wedi gorfod symud addasiadau allan o rai o'r cartrefi er mwyn eu gosod ar rent. Y rheswm am hyn oedd nad yw'r rhan fwyaf o breswylwyr abl yn dymuno cael yr addasiadau, o safbwynt diwyg yr eiddo, a hefyd oherwydd nad ydynt yn cyflawni eu gofynion hwy. Er enghraifft, maent yn awyddus i gael bath, yn hytrach nag ystafell wleib. Nodwyd bod yna aneffeithlonrwydd sylweddol oherwydd na all eu system ddyrannu gyfateb unigolion yn effeithiol yr unigolion anabl ar y rhestr aros sydd angen addasiad o'r fath.

Er bod y rhanddeiliaid yn dweud eu bod yn ystyried ymdrech awdurdodau lleol yng Nghymru i weithredu neu i weithio tuag at ddatblygu Cofrestrau Tai Hygyrch yn beth positif, roedd yr effeithiolrwydd yn amrywio. Byddai canllawiau ar yr hyn sy'n creu Cofrestr Tai Hygyrch effeithiol a monitro'u gweithrediad yn sbarduno gwelliant.

Mae gan Gymru, Lloegr a'r Alban oll eu fframweithiau deddfwriaethol unigol sy'n manylu ar y gofyniad am bolisi dyraniad a manylion ynghylch rheoli 'dewis rhesymol' wrth ddyrannu eiddo. Mae dewis rhesymol yn golygu y bydd gan rai grwpiau rywfaint o flaenoriaeth ar y rhestr aros am dai, ond nid yw hyn yn golygu o angenrheidrwydd y byddant yn cael eu trin fel achosion brys.

Er bod gofyn i'r holl awdurdodau lleol fod â chynllun dyraniadau, nid yw pob un yn rheoli eu stoc dai eu hunain. Hanner awdurdodau Cymru sy'n berchen ar eu stoc dai

eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o lawer yn gyfrifol am y dyraniad, gan ddyrannu tai mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn aml, trwy gofrestrau tai neu gynlluniau gosod ar sail dewis. Mewn ambell ardal, bydd awdurdodau lleol a'r holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cyd-ddyrannu trwy Gofrestrau Tai Cyffredin.

Mae Cofrestr Tai Cyffredin yn golygu mai'r cyfan sydd angen i ymgeiswyr ei wneud yw llenwi un ffurflen i gael eu hystyried ar gyfer tai cymdeithasol yn eu hardal. Yna bydd yr ymgeiswyr yn cael eu blaenoriaethu yn unol â'r polisi dyrannu sy'n gweithredu yn eu hardal. Mewn cynlluniau Gosod ar Sail Dewis, mae'r ymgeiswyr yn ceisio eiddo'r sydd ar gael.

Bydd rhai unigolion dan anfantais gyda'r cynllun yma oherwydd bod y dull yn dibynnu ar ymgeiswyr yn gwneud cais gweithredol am eiddo, yn aml iawn heb ddigon o wybodaeth am hygyrchedd yr eiddo sydd ar gael. Hefyd, mae'r ddibyniaeth ar gofrestru ar-lein a'r ddarpariaeth hefyd yn creu rhwystr i rai grwpiau (Llywodraeth Cymru, 2013)

Yng Nghymru, mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau cryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd, gan ganiatáu iddynt ddefnyddio llety addas yn y sector preifat. Mae'r Ddeddf yn dynodi nifer o grwpiau fel rhai â blaenoriaeth o ran eu hanghenion, gan gynnwys rhai grwpiau o bobl anabl. Yn ystod ein hymchwil, clywsom gan ddarparwyr tai fod y ddyletswydd atal newydd wedi sbarduno gweithredu cyflymach gan yr awdurdodau lleol i ddod o hyd i letyau ar gyfer rhai grwpiau o bobl anabl.

Prosiect Tai Hygyrch Caerdydd - Cofrestr Tai Hygyrch

Mae Prosiect Tai Hygyrch Caerdydd a sefydlwyd fis Medi 2002 yn gofrestr tai canolog i bobl â nam corfforol sy'n awyddus i symud i gartref newydd. Mae Tai Hygyrch yn cydweithio'n agos â'r partneriaid (yr awdurdod lleol a saith o gymdeithasau tai) i ddarparu tai o ansawdd i bobl sy'n chwilio am dai addasedig neu dai hygyrch. Cyllidwyd Tai Hygyrch gan Lywodraeth Cymru ar y dechrau, ond bellach caiff ei gyllido'n llawn gan ei bartneriaid. Nod y gwasanaeth yw galluogi eiddo hygyrch ac eiddo addasedig i gael ei gyfateb i'r bobl hynny sydd eu hangen. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ailgartrefu, asesu, gwasanaethau cynghori a chymorth. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â nifer o asiantaethau a sefydliadau gyda golwg ar ailgartrefu'r cleient neu geisio asesiad gan Therapydd Galwedigaethol er mwyn i'r addasiadau gael eu gwneud. Amcan sylfaenol y

gwasanaeth yw helpu pobl anabl i symud/aros yn eu cartrefi eu hunain a chael eu cynnal yn ddiogel ac yn sicr gan barhau i fwynhau byw'n annibynnol.

Asesiad o'r angen am dŷ

Er mwyn cyfateb pobl anabl â chartrefi addas, mae angen i awdurdodau lleol asesu gofynion penodol yr ymgeiswyr

Yn ein harolwg o awdurdodau lleol, gofynnwyd iddynt ddangos ym mha ffyrdd y byddant yn asesu angen pobl anabl am dai os oes angen cartref hygyrch arnynt. Mae nifer sylweddol o awdurdodau yng Nghymru, sef oddeutu dwy ran o dair ohonynt, yn defnyddio aseswyr mewnol sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i drin ceisiadau gan bobl anabl. Bydd oddeutu tri deg y cant o awdurdodau yng Nghymru'n defnyddio Therapyddion Galwedigaethol o'u cymharu â chyfartaledd o 60 o awdurdodau ym Mhrydain Fawr (EHRC, 2018).

Yn achos pumed ran (20 y cant) o awdurdodau, byddai gwell ymgysylltiad, a chydweithrediad rhwng sefydliadau yn eu helpu i ddeall yn well beth yw anghenion tai pobl anabl. Dywedodd 20 o'r awdurdodau eraill y byddai gwell tystiolaeth ar anghenion tai pobl anabl a'r galw am dai hygyrch yn helpu (EHRC, 2018). Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i bobl anabl ag amhariadau llai gweladwy, nad yw eu hanghenion bob amser yn amlwg yn syth.

Yn ystod ein hymchwiliad, gwelsom arfer da, ac yn aml roedd hyn yn digwydd lle roedd timau anabledd penodol neu arbenigwyr yn yr adrannau tai, a lle roedd cysylltiadau gyda phobl broffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn anad dim, maent yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth am hygyrchedd yr eiddo sydd ar gael yn cael ei asesu a'i gyfathrebu'n fwy trylwyr, fel bod ymgeiswyr yn gallu gwneud dewis ar sail gwybodaeth wrth wneud cais.

Cyfnodau aros

Pan fydd unigolyn wedi llwyddo i drin y cais am dŷ a'r broses asesu, mae wedyn yn wynebu oedi hir.

Dim ond 50 y cant o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n cofnodi'r amseroedd aros. Mae'r rheiny sy'n cadw cofnodion yn adrodd bod ymgeiswyr ar gyfer gyfartaledd y mae angen cartrefi hygyrch neu addasedig arnynt, yn aros 28 mis i gael tŷ wedi'i dyrannu iddynt. O'i gymharu â hyn, mae'r amser aros cyffredinol am ymgeiswyr am dai yn 25 mis (EHRC, 2018) Un o'r gofynion nodweddiadol a gyflwynir i ymgeiswyr am dai yw bod yn rhaid i bobl fod yn weithredol ar y system, gan chwilio'n rheolaidd

a gwneud cynnig am eiddo; os na wnânt hynny, ystyrir eu bod yn anweithredol, ac maent yn wynebu cael eu diddymu o'r rhestr aros.

Daethom ar draws unigolion oedd yn aros lawer yn hwy, gyda rhai ohonynt yn aros ymhell dros bum mlynedd. Clywsom dro ar ôl tro gan asiantaethau cyngor bod eu cleientiaid yn wynebu cyfnodau hir o aros am eiddo sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae prinder hefyd o eiddo hygyrch sy'n ddigon o faint i deulu.

Dod o hyd i eiddo addas - problem bylchau yn y data

Mae'r data sydd gan awdurdodau lleol ar dai hygyrch yn gyffredinol wael; nid yw oddeutu hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwybod a yw'r tai cymdeithasol neu fforddiadwy ar osod yn eu hardal hwy yn hygyrch ai peidio (EHRC, 2018). Nid oes unrhyw ddata cenedlaethol ar gael am y stoc dai addasadwy.

Lle mae'r awdurdodau lleol yn berchnogion uniongyrchol ar eu stoc dai, mae 91 y cant ohonynt yn barnu bod y wybodaeth sydd ganddynt ar hygyrchedd eu heiddo 'yn dda' neu 'yn dda iawn'. Po fwyaf maint yr awdurdod lleol, mwyaf tebygol ydyw o farnu bod ei wybodaeth 'yn dda' neu 'yn dda iawn' (EHRC, 2018).

Mae bron i hanner yr awdurdodau yng Nghymru yn datgan nad ydynt yn gwybod beth yw canran o dai fforddiadwy neu dai cymdeithasol yn eu hardal sy'n hygyrch. Mae chwe deg un y cant sy'n cynnig tai rhentu preifat yn barnu bod y wybodaeth a oedd ganddynt am y math yna o eiddo 'yn wael' neu nad oeddent yn gwybod pa wybodaeth oedd ganddynt am eiddo fel hyn.

Mae nifer cynyddol y bobl anabl sy'n derbyn tŷ yn y sector rhentu preifat, a'r wybodaeth gyfyngedig sydd gan awdurdodau lleol o eiddo hygyrch, yn golygu y gallai fod gan yr awdurdodau hynny fwy o anhawster wrth osod pobl anabl mewn cartrefi hygyrch neu amcangyfrif y nifer fydd ei angen yn y dyfodol. (EHRC, 2018) Gall y diffyg gwybodaeth hwn ei gwneud yn anodd i'r awdurdodau ddatblygu strategaethau a chynlluniau i ddiwallu'r galw yn y dyfodol.

Ni all rhai awdurdodau lleol farnu sawl unigolyn anabl sydd ar eu rhestrau aros, neu beth yw eu gofynion o ran eiddo a addaswyd neu eiddo hygyrch.

Er gwaethaf y diffyg data, dywedodd 95 o'r awdurdodau lleol a oedd yn rheoli'r broses ddyrannu eu bod naill ai'n 'llwyddiannus' neu'n 'eithaf llwyddiannus' wrth gyfateb eiddo addas i bobl anabl. Hefyd mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn adrodd eu bod naill ai'n 'effeithiol iawn' neu'n 'eithaf effeithiol' wrth asesu anghenion pobl sydd agen tai hygyrch. Er gwaethaf ymdrechion yr awdurdodau lleol a'r data

sydd ganddynt, mae eu hyder yn eu prosesau dyrannu'n syndod. Mae'n mynd yn groes i'r dystiolaeth a glywsom am brofiadau pobl anabl o fyw.

Beth sydd angen ei newid?

Er bod prosesau dyrannu tai'n amrywio'n fawr, nodweddion sy'n gyffredin iddynt yw eu bod yn gymhleth ac yn peri straen, ac yn aml yn methu â darparu digon o wybodaeth i bobl anabl allu dewis ar sail y wybodaeth honno a fydd y cartref a gynigir iddynt yn diwallu eu hanghenion ai peidio. Mae diffyg cyngor neu gymorth unigol wrth drafod cymhlethdodau gwneud cais am gartref addas yn broblem gynyddol sy'n gwaethygu ymhellach yr anawsterau y bydd pobl anabl yn eu hwynebu.

Fel y dengys ein harolwg o awdurdodau lleol, mae'r galw am dai cymdeithasol ar hyd a lled Cymru yn golygu bod y rhestrau aros yn hir iawn. Yn ogystal â hyn, cymysg yw'r wybodaeth y mae darparwyr tai ac awdurdodau yn ei chadw o ran niferoedd y bobl anabl ar eu rhestrau aros, eu hanghenion, a hygyrchedd ac addasadwyedd hynny o stoc dai sydd ganddynt. Gall Cofrestrau Tai Hygyrch fod yn ffordd effeithiol o reoli dyraniad eiddo i bobl anabl. Pan weithredant yn effeithiol, dylent ddarparu darlun eglur o alwad a chyflenwad tai hygyrch mewn ardal, a galluogi pobl i gael eu cyfateb â'r tai priodol yn y modd mwyaf effeithiol.

Mae effeithiolrwydd Cofrestrau Tai Hygyrch yn amrywio, a byddai'n fuddiol i'r awdurdodau gael canllawiau eglur ar y safonau sy'n cael eu datblygu, gan amlinellu sut beth yw Cofrestr Tai Hygyrch effeithiol. Pe byddai hyn yn cael ei gynnal gan system effeithiol o fonitro, mae'n debygol y byddem yn gweld gwelliant ym mhrofiadau pobl anabl.

Mae heriau penodol ar gyfer gwahanol fathau o amhariadau. Mae tystiolaeth ar gael nad yw darparwyr tai ac awdurdodau lleol yn deall yn llawn beth yw gofynion pobl ag anabledau dysgu neu bobl â chyflyrau iechyd meddwl. O ganlyniad, maent yn blaenoriaethu ymgeiswyr ag amhariadau corfforol dros bawb arall. Mae eiddo sy'n gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn hefyd yn brin dros ben, ac mae darparwyr tai'n ei chael hi'n anodd deall beth yn hollol yw ystyr hygyrchedd corfforol i bobl anabl, ac felly'n cynnig eiddo anhygyrch.

Er mwyn targedau'r adnoddau'n fwy effeithiol, mae angen llawer gwell gwybodaeth ar awdurdodau lleol am bobl anabl a'u gofynion. Fodd bynnag, dywedodd

awdurdodau lleol wrthym ei bod yn anodd derbyn data gan asiantaethau allweddol eraill: byddai gwell cyfathrebu, tryloywder a rhannu data'n mynd i'r afael â hyn.

Dylai awdurdodau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wella'r wybodaeth sydd ar gael i ymgeiswyr ar bob cam o'r broses cartrefu, a dylai'r wybodaeth honno fod ar gael ar amrywiaeth o fformatau. Yn anad dim, dylid gwella gwybodaeth ar gyfer y broses o ymgeisio am lety addas a'i sicrhau; tebygolrwydd llwyddiant; addaster (hygyrchedd / addasadwyedd) yr eiddo sydd ar gael; a'r amser aros tebygol. Dylai'r wybodaeth fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch.

Dylai darparwyr tai sicrhau bod unrhyw broses asesu yn dilyn model cymdeithasol anabled, ac ystyried yr holl rwystrau, boed amgylcheddol neu agweddol, a allai leihau ansawdd bywyd unigolyn. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod polisïau a systemau dyrannu yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Argymhellion

Rydym yn galw am y canlynol:

- I awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ymgorffori egwyddorion byw'n annibynnol yn eu polisïau asesu a dyrannu ar gyfer tai cymdeithasol, **er mwyn sicrhau** bod gan bobl anabl **wir ddewis a rheolaeth**.
- I awdurdodau lleol **gynyddu'n sylweddol eu gwybodaeth o'r stoc dai cymdeithasol hygyrch bresennol**, a datblygu gwasanaethau cymorth a gwybodaeth arbenigol i hwyluso cyfateb addas.
- I awdurdodau lleol gymhwyso'r arferion gorau wrth ddefnyddio **Cofrestrau Tai Hygyrch**, gyda'r nod mwy hirdymor o ddefnyddio methodoleg safonol yn yr holl awdurdodau lleol.
- I Lywodraeth Cymru gyhoeddi safonau a monitro a chyhoeddi effeithiolrwydd Cofrestrau Tai Hygyrch.

Cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol

Mae'n cymryd mwy na brics a morter i alluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol; mae cymorth hefyd yn hanfodol. Mae sawl ffurf ar gymorth ar gael, ond eto mae darpariaeth cyngor, eiriolaeth a chanllawiau safon-uchel ar gyfer tai yn fylchog ac yn anodd dod o hyd iddi. Mae newidiadau i gyllid ar gyfer cyngor tenantiaeth a thai â chymorth wedi creu ansicrwydd i bobl anabl a darparwyr tai.

Mae pobl anabl, yn enwedig y rheiny ag anabledau dysgu, nam ar y synhwyrau neu gyflyrau iechyd meddwl yn datgan eu bod yn cael anhawster derbyn cymorth digonol gan ddarparwyr tai. Mae hyn yn cynnwys: amharodrwydd darparwyr i ddarparu gwybodaeth ar fformatau hygyrch, er enghraifft 'rhwydd ei darllen'; methiant i ddarparu cymorth cyfathrebu, er enghraifft dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain; diffyg manylder mewn hysbysebion ar gyfer eiddo hygyrch; a diffyg cymorth â cheisiadau.

Mae prinder gwasanaethau cyngor yn broblem gydnabyddedig yng Nghymru, ac mae'r wlad wedi'i disgrifio ers talwm fel 'anialwch o ran cyngor' (Williams, 2003) Mae toriadau i gymorth cyfreithiol a chyllid i ddarparwyr cyngor wedi gwaethygu sefyllfa sydd eisoes yn anodd yma yng Nghymru Mae pobl anabl wedi dweud wrthym eu bod yn aml yn dibynnu ar deulu a chyfeillion i'w cynorthwyo i ddatrys eu problemau tai. Gall yr heriau o gyrraedd a defnyddio gwasanaethau cyngor a chymorth fod yn fwy anodd mewn ardaloedd gwledig.

Pwysleisiodd pobl anabl fod newidiadau i'r system lles, a chymorth i ddarganfod sut i ddefnyddio'r systemau a'r prosesau cymhleth yn heriol. Ar-lein y bydd ceisiadau am daliadau lles a sawl gwasanaeth arall yn cael eu cyflwyno fel arfer, ac yn ôl llawer o bobl anabl, mae hyn yn rhwystr iddynt gael cymorth. Mae pobl anabl yng Nghymru yn sylweddol fwy tebygol o gael eu heithrio'n ddigidol nag unrhyw grŵp arall.

Un thema eglur yn y dystiolaeth a dderbyniasom oedd bod yna gysylltiad cryf rhwng iechyd corfforol a meddyliol, yn enwedig os oes oedi cyn dod o hyd i lety addas neu wneud addasiadau. Mae eiriolaeth a chynngor effeithiol i ddod o hyd i'r ffordd mewn systemau dryslyd yn hanfodol wrth ddarparu cymorth ymarferol a moesol.

Dyweddodd rhai pobl anabl eu bod wedi derbyn cymorth oddi wrth eiriolwyr annibynnol, neu oddi wrth weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a bod hyn wedi gwneud eu hymchwil am lety addas lawer yn haws. Dywedodd wyth deg y cant o awdurdodau lleol yng Nghymru eu bod wedi defnyddio gweithiwr cymorth neu eiriolwr i gyfathrebu â phobl anabl. Roedd hyn yn sylweddol uwch nag awdurdodau lleol yn Lloegr (56 y cant) ac mae'n awgrymu rhagor o bwyslais ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (EHRC, 2018)

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhagor o bwyslais ar sicrhau bod yr unigolyn yng nghanol y broses o lunio penderfyniadau, ac ar gymorth sy'n hyrwyddo ac yn cynnal annibyniaeth trwy ei Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf, a ddaeth i rym fis Ebrill 2016, yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu mynediad rhwydd i gyngor a gwybodaeth eglur a gwasanaethau eiriolaeth. Roedd Sefydliadau Pobl Anabl yn bositif am yr effaith y mae'r Ddeddf yn dechrau ei chael.

Rhaglen Cefnogi Pobl

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu cyllid grant i awdurdodau lleol er mwyn darparu amrywiaeth eang o gymorth sy'n gysylltiedig â thai, gan gynnwys pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd meddwl, pobl hyn ag anghenion cymorth a phobl ag anabledau dysgu, i fyw'n annibynnol. Gall yr amrywiaeth o wasanaethau cymorth gynnwys cyngor a chymorth ar wahanol faterion sy'n gysylltiedig â thai, cymorth i reoli cyllideb yr aelwyd, a chynghor ar gynnal tenantiaethau.

Cafwyd bod y math yma o gefnogaeth o werth cymdeithasol ac economaidd enfawr, oherwydd ei fod yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae'n helpu i leihau'r angen am ymyriadau cost-uchel, er enghraifft cyfnodau yn yr ysbyty a thai â chymorth, ac yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau eraill, er enghraifft gofal iechyd a chymdeithasol.

Clywsom gan ddarparwyr tai am bwysigrwydd y rhaglen yma wrth ddarparu cyllid ychwanegol i gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol.

Mae rhaglen Cefnogi Pobl yn cefnogi mwy na 67,000 o bobl y flwyddyn ar hyn o bryd, gyda chyllideb gyfredol o £124m y flwyddyn; fodd bynnag, rhwng 2013 a 2017, mae cyfanswm y gyllideb flynyddol wedi lleihau o 8.5 y cant (Swyddfa Archwilio Cymru, 2017).

Yn wahanol i Loegr a'r Alban, mae cyllideb y rhaglen yng Nghymru wedi'i chlustnodi at y diben hwn. Mae hyn yn golygu, yng Nghymru, na ellir defnyddio cyllid y rhaglen ond i gyllido gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai er mwyn cynorthwyo pobl fregus i fyw mor annibynnol ag y gallant. Yn ôl gwerthusiad yn 2017 gan Swyddfa Archwilio Cymru, cafwyd cefnogaeth a oedd bron iawn yn unfrydol i benderfyniad Llywodraeth Cymru i barhau i glustnodi swm yn benodol. Fodd bynnag, mae gan randdeiliaid bryderon sylweddol am ddyfodol y rhaglen yma, yn dilyn y penderfyniad i gyfuno'r gyllideb o 2020 ymlaen gyda chyllidebau eraill.

Mae awdurdodau lleol, darparwyr tai, a phobl anabl oll yn cytuno bod y gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl anabl eisoes yn cael eu hymestyn i'r eithaf. Adroddodd bron pob awdurdod lleol yng Nghymru (95 y cant) eu bod yn darparu gwasanaethau cymorth tai, ond dim ond 30 y cant o'r awdurdodau oedd yn teimlo eu bod yn diwallu'r galw'n llawn (EHRC, 2018).

Pan ofynnwyd iddynt am ddyfodol gwasanaethau cymorth tenantiaid, roedd awdurdodau lleol yng Nghymru'n besimistaidd. Dim ond pumed ran (20 y cant) oedd yn disgwyl gwelliant ac roedd tua hanner (45 y cant) yn disgwyl i'r sefyllfa waethygu ychydig. Ystyriwyd mai problemau cyllideb ac ariannu oedd y rhwystr pennaf i'r gwasanaethau hyn (EHRC, 2018).

“Mae gennym broblemau yn sgil natur wledig lawer rhan o'n sir. Fe wnaethom ni ailstrwythuro'n gwasanaethau cymorth tenantiaid flwyddyn yn ôl ... i gysoni gwasanaethau'n well mewn ardaloedd trefol a gwledig, gydag un sefydliad yn darparu gwasanaethau i bob grwp cleientiaid mewn contractau ar sail ardal. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda rhagor o bobl yn cael eu helpu, ar gost is, a'r gallu i ddefnyddio'r gwasanaethau'n gyflymach. Fodd bynnag, mae pryderon bod y gyllideb ar gyfer Cefnogi Pobl yn mynd i gael ei dorri'n llym o Ebrill 2018, gan fygwth y gwelliannau a wnaethom.

Awdurdod unedol, Gorllewin Cymru

Beth yw rôl tai â chymorth?

Mae Llywodraeth y DU wedi cynnal adolygiad hirfaith o dai â chymorth, a achosodd ansicrwydd i bobl anabl a darparwyr tai. Llywodraeth y DU sy'n rheoli cyllidebau Tai â Chymorth. Disgwylir y bydd y gyllideb yn cael ei dyrannu i Lywodraeth Cymru i'w dosbarthu o 2020 ymlaen.

Clywsom amrediad o safbwyntiau am rôl tai â chymorth, gan gynnwys rhai pryderon nad yw'r cynllun bob amser yn hyrwyddo'r hawl i fyw'n annibynnol. Mae pryderon a godwyd gan randdeiliaid wedi dwyn sylw at y ffaith y gallai fod gormod o bwysau arnynt i symud i mewn i dai â chymorth, yn hytrach na darparu'r cymorth y mae ei angen ar bobl i allu byw'n annibynnol yn eu cartrefi ei hunain, os mai dyma yw eu dymuniad.

Mae rhagor o fanylion am Dai â Chymorth i'w gweld yn y prif adroddiad.

Beth sydd angen ei newid?

Mae angen i awdurdodau lleol gomisiynu a chyllido darpariaeth ddigonol o gyngor unigol i bobl anabl, mewn partneriaeth â'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r trydydd sector.

Yng Nghymru, wrth ddatblygu cyllid ar gyfer tai â chymorth, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac awdurdodau lleol gydgomisiynu amrediad o gymorth, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl fel y bo'r angen, i helpu pobl anabl i gynnal eu tenantiaethau.

Dylai unrhyw ganllawiau newydd sy'n cael eu cyhoeddi i awdurdodau lleol ar gomisiynu tai â chymorth a chymorth tai ddwyn sylw at bwysigrwydd annog ymgysylltiad â rhanddeiliaid anabl, er mwyn iddynt allu cyfrannu barn ystyrlon i gynlluniau, a chraffu rhaglenni'n barhaus.

Mae angen i hawliau, rhyddid a dewis fod yr un fath i'r bobl anabl hynny sydd mewn lletyau â chymorth ag y maent i'r rheiny â thenantiaethau cyffredin, a dylid rhoi mecanweithiau cadarn ar waith ar gyfer trin cwynion.

Argymhellion

Ar hyd a lled Cymru, Lloegr a'r Alban, rydym yn galw am:

- **I Lywodraeth y DU sicrhau bod y polisi a'r model cyllido newydd ar gyfer tai â chymorth yn cadarnhau hawliau'r tenant**, ac nad oes cyfyngiad ar y rhyddid a'r dewis, yn unol â UNCRPD y CU. Mae angen i'r model newydd fynd i'r afael â'r ansicrwydd presennol a darparu marchnad sefydlog ar gyfer darparwyr tai a'r rheiny sy'n darparu cymorth arbenigol.

- I awdurdodau lleol sicrhau bod **gwasanaethau, tai, gofal ac iechyd yn cael eu hintegreiddio'n llawn a bod cyllid digonol ar gael i gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol**, a bod mwy o ffocws ar atal.
- I awdurdodau lleol ddarparu mwy o gyngor arbenigol ar anabledd a gwasanaethau eiriolaeth fel rhan o'r dewisiadau tai.

Yng Nghymru a Lloegr, rydym yn galw am:

- I Lywodraeth y DU sicrhau bod ei hadolygiad o **Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012** yn ystyried effaith hepgor tai o gyllid cymorth cyfreithiol i bobl anabl, ac yn cymryd camau effeithiol i liniaru unrhyw effeithiau andwyol a welir.

Casgliad

Mae'r hawl i fyw'n annibynnol yn hawl sylfaenol sy'n cael ei ymgorffori yn y UNCRPD. Mae tai yn gonglfaen i fyw'n annibynnol. Heb dai priodol, mae'n anos o lawer defnyddio cyfleoedd gwaith, addysg neu hamdden. I ormod o bobl anabl a rannodd eu profiadau â ni yn ystod yr ymchwiliad, mae diffyg tai hygyrch a'r cymorth cysylltiedig yng Nghymru yn rhwystr mawr iddynt wireddu eu hawl i fyw'n annibynnol.

Mae manteision sicrhau cyflenwad o dai newydd sy'n hygyrch ac yn addasadwy'n eglur. Bydd cyflenwad mwy yn sicrhau bod pobl anabl yn gallu mynnu eu hawl i fyw'n annibynnol a bydd yn lleihau costau gofal cymdeithasol i awdurdodau lleol a chostau iechyd i'r GIG.

Mae llawer o'r manteision o ran deddfwriaeth a pholisi i fynd i'r afael â'r problemau a amlygodd yr ymchwiliad yn parhau i fodoli yng Nghymru, ac mae tai, cynllunio a rheoliadau adeiladu oll wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Mae camau gweithredu i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi hygyrch ac addasadwy yn bosibl. Mae gofyn i Lywodraeth Cymru fod â strategaeth a chamau gweithredu pendant i sicrhau bod cyflenwad digonol o dai newydd hygyrch ac addasadwy, gan gynnwys tai sy'n addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, ar gael ymhob deiliadaeth.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu cyfle go iawn i newid y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i lunio penderfyniadau. Gallai cymhwyso egwyddorion y Ddeddf yn effeithiol i bolisiâu cynllunio a thai sicrhau bod y stoc dai a adeiladwyd yng Nghymru yn barod at y dyfodol ar gyfer ein poblogaeth sy'n heneiddio. Croesawn yn fawr ailgyflwyno'r canllawiau cynllunio i ymgorffori egwyddorion y Ddeddf

Mae'n annhebygol y bydd cynnydd yn digwydd o ran nifer y bobl anabl sydd â chartrefi hygyrch sy'n hwyluso'u hawl i fyw'n annibynnol, oni bai eu bod yn rhan o'r dasg o lunio polisiâu ac arferion tai. Mae angen i Lywodraethau ar lefel genedlaethol a lleol fod llawer yn fwy effeithiol wrth annog ymgysylltiad pobl anabl, yn strategol ac yn weithredol, er mwyn adlewyrchu'u mewnbwn mewn ffordd ystyrllon, mewn cylch o wella parhaus.

Mae prinder ac ansawdd data am dai hygyrch a phobl anabl yn rhwystr ychwanegol a sylweddol i lywodraethau cenedlaethol a lleol allu gwneud cynlluniau effeithiol i gynyddu'r cyflenwad o dai hygyrch. Roedd hyn yn thema a ailadroddwyd sawl gwaith yn ystod yr ymchwiliad, ac mae angen mynd i'r afael â hyn.

Dywedodd pobl anabl wrthym dro ar ôl tro bod y systemau dyrannu ac addasu tai yn gymhleth ac yn anodd eu deall. Yn yr adroddiad yma rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd meddwl y tu hwnt i 'frics a mortar'. Mae'n hanfodol bod â gwasanaethau eiriolaeth, cyngor a chymorth i lunio dewisiadau neu i herio systemau pan aiff rhywbeth o'i le. Daeth iechyd meddwl i'r amlwg fel thema gyson; yn ei rinwedd ei hun, a hefyd yn gysylltiedig â'r straen sy'n codi o ganlyniad i lety amhriodol.

Dywedodd pobl anabl wrthym am y rôl bositif yr oedd addasiadau'n ei chwarae wrth sicrhau eu gallu i fyw'n annibynnol. Croesawn yn fawr y cynnydd yn y cyllid ar gyfer DFG yng Nghymru a Lloegr, ynghyd ag adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar â'r nod o symud ymaith y fiwrocratiaeth sy'n bodoli mewn sawl awdurdod.

Mae manteision mawr i baratoi stoc dai Cymru i ymdopi â'r dyfodol. Gellir osgoi costau tai anhygyrch i unigolion a'r economi os caiff gofynion pobl anabl eu darganfod a'u hymgorffori wrth gynllunio a chyflenwi tai newydd.

Crynodeb o'r argymhellion

Mae egwyddorion byw'n annibynnol yn cydnabod mai pobl anabl yw'r arbenigwyr gorau i bennu a hyrwyddo atebion gwell. Mae angen i Lywodraethau ar lefel genedlaethol a lleol fod llawer yn fwy effeithiol **wrth annog ymgysylltiad pobl anabl**, yn strategol ac yn weithredol, er mwyn adlewyrchu'u mewnbwn mewn ffordd ystyrlon, mewn cylch o wella parhaus.

Yr angen i adeiladu tai mwy hygyrch ac addasadwy

Rydym yn galw am y canlynol:

- I **Lywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth genedlaethol** i sicrhau bod cyflenwad digonol o dai sydd wedi'u hadeiladu'n unol â safonau dylunio cynhwysol/cyffredinol a safonau sy'n cynnwys hygyrchedd i gadeiriau olwyn ar gyfer pob math o ddeiliadaeth. Dylai hyn gynnwys adolygiad o'r ffordd y bydd safonau adeiladu'n cael eu gorfodi, yn enwedig yn y sector rhentu preifat. Dylai'r

strategaeth gydnabod bod angen cymorth, cyngor ac eiriolaeth tai yn aml er mwyn galluogi pobl i gadw eu tai a'u hawl i fyw'n annibynnol.

- I Lywodraeth genedlaethol a llywodraethau lleol gymryd camau i wella'r ffordd y bydd **data'n cael eu casglu a'u rhannu**, o ran gofynion pobl anabl ac o ran hygyrchedd y stoc dai bresennol.
- I Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofyniad bod pob cartref newydd yn cael ei adeiladu yn unol â Gofynion Ansawdd Datblygu a gorfodi awdurdodau lleol i sicrhau bod 10 y cant o **gartrefi newydd a adeiladwyd yn unol â'r safonau sy'n cynnwys hygyrchedd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn**.
- I Lywodraeth Cymru **gyhoeddi data blynyddol ar nifer y cartrefi a adeiladwyd sy'n hygyrch, yn addasadwy ac yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn**.
- I'r awdurdodau lleol **gymhwyso'r pum ffordd o weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn eu cynlluniau strategol** ar gyfer cartref hygyrch, yn enwedig wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol ac Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol.
- I awdurdodau lleol gyflawni'u dyletswydd i gyhoeddi **Asesiadau Effaith Cydraddoldeb** ochr yn ochr â'u Cynlluniau Datblygu Lleol a'u Hasesiadau o'r Farchnad Dai Leol.

Gwella'r gwaith o addasu'r cartref

Rydym yn galw am y canlynol:

- I awdurdodau lleol fynd i'r afael ar frys â'r **rhwystrau a'r oedi biwrocraidd yn y systemau addasiadau** i sicrhau mân addasiadau cost isel yn arbennig y gellir eu cyflawni'n gyflym ac yn rwydd.
- Lywodraeth Cymru ddarparu **cyllid ychwanegol i sefydliadau pobl anabl ac asiantaethau cynghori er mwyn sicrhau bod rhagor o gyngor annibynnol a gwybodaeth ar gael ynghylch dewisiadau tai, gan gynnwys addasiadau**, gyda ffocws arbennig ar y sector rhentu preifat.
- I Lywodraeth Cymru gynnig hyfforddiant arbrofol i landlordiaid yn y sector preifat fel rhan o gynllun Rhentu Doeth Cymru, i drwyddedu landlordiaid ac asiantau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Cyfateb cartref i bobl sydd â'u hangen

Rydym yn galw am y canlynol:

- I awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ymgorffori egwyddorion byw'n annibynnol yn eu polisiau asesu a dyrannu ar gyfer tai cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod gan bobl anabl **wir ddewis a rheolaeth**.
- I awdurdodau lleol **gynyddu'n sylweddol eu gwybodaeth o'r stoc dai cymdeithasol hygyrch bresennol**, a datblygu gwasanaethau cymorth a gwybodaeth arbenigol i hwyluso cyfatebiad addas.
- I awdurdodau lleol gymhwyso'r arferion gorau wrth ddefnyddio **Cofrestrau Tai Hygyrch**, gyda'r nod mwy hirdymor o ddefnyddio methodoleg safonol ar draws yr holl awdurdodau lleol.
- I Lywodraeth Cymru gyhoeddi safonau a monitro a chyhoeddi effeithiolrwydd Cofrestrau Tai Hygyrch.

Cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol

Rydym yn galw am y canlynol:

- **I Lywodraeth y DU sicrhau bod y polisi a'r model cyllido newydd ar gyfer tai â chymorth yn cadarnhau hawliau'r tenantiaid**, ac nad oes cyfyngiad ar y rhyddid a'r dewis, yn unol â UNCRPD y CU. Mae angen i'r model newydd fynd i'r afael â'r ansicrwydd presennol a darparu marchnad sefydlog ar gyfer darparwyr tai a'r rheiny sy'n darparu cymorth arbenigol.
- I awdurdodau lleol sicrhau bod **gwasanaethau, tai, gofal ac iechyd yn cael eu hintegreiddio'n llawn a bod cyllid digonol ar gael i gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol**, a bod mwy o ffocws ar atal.
- I awdurdodau lleol **ddarparu mwy o gyngor arbenigol ar anabledd a gwasanaethau eiriolaeth** fel rhan o'r dewisiadau tai.
- I Lywodraeth y DU sicrhau bod ei adolygiad o **Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr 2012** yn ystyried effaith hepgor tai o gyllid cymorth cyfreithiol i bobl anabl, ac yn cymryd camau effeithiol i liniaru unrhyw effeithiau andwyol a welir.

Llyfryddiaeth

Gofal a Thrwsio Cymru (2017), 'Adroddiad Blynyddol 2015-16'. Ar gael yn: <http://www.careandrepair.org.uk/cy/publications/cyhoeddiadau/> [agorwyd: 30 Mawrth 2018]

Pwyllgor Hawliau Pobl Anabl (2017), 'Casgliadau ar adroddiad cychwynnol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon'. Ar gael yn: http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2fC%2fGBR%2fCO%2f1&Lang=en [agorwyd: 26 Mawrth 2018]

Cymorth Cymru (2017), 'Ymateb i gyhoeddiad Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar ddyfodol cyllido tai â chymorth'. Ar gael yn: <http://www.cymorthcymru.org.uk/en/news-blog/news/response-supported-housing-funding-october-2017> [agorwyd: 3 Ebrill 2018]

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) (2017), 'Bod yn anabl ym Mhrydain: taith lai cyfartal' Ar gael yn: <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/being-disabled-britain-journey-less-equal> [agorwyd: 26 Mawrth 2018]

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) (2018) 'Tai a Phobl anabl: rôl awdurdodau lleol' IFF Research. Ar gael yn: <https://www.equalityhumanrights.com/en/housing-and-disabled-people-role-local-authorities> [agorwyd: 9 Mai 2018]

Habinteg (2010), Lifetime Home (LTH) Revised Criteria. Ar gael yn: <http://www.lifetimehomes.org.uk/pages/quick-print-version-revised-criteria.html> [agorwyd: 26 Mawrth 2018]

Heywood, F.S. a Turner, L. (2007), 'Better outcomes, lower costs: implications for health and social care budgets of investment in housing adaptations, improvements and equipment – a review of the evidence'. Swyddfa Materion Anabled Ar gael yn: http://www.wohnenimalter.ch/img/pdf/better_outcomes_report.pdf [agorwyd: 26 Mawrth 2018]

Holmans, A. (2015), 'Future Need and Demand for Housing in Wales'. Ar gael yn: <https://sites.cardiff.ac.uk/ppiw/files/2015/11/Future-Need-and-Demand-for-Housing-in-Wales-REVISED.pdf> [agorwyd: 26 Mawrth 2018]

Keall, M., Pierse, N., Howden-Chapman, P., Cunningham, C., Cunningham, M., Guria, J. a Baker, M. (2015), 'Home modifications to reduce injuries from falls in the home. Injury Prevention Intervention (HIPI) study: a cluster-randomised controlled trial', *The Lancet*, 385, tt. 231–38.

Leonard Cheshire (2014), 'No Place like Home: 5 million reasons to make housing disabled-friendly'. Ar gael yn: <https://www.leonardcheshire.org/sites/default/files/no-place-like-home-leonard-cheshire-disabilitiy.pdf> [agorwyd: 26 Mawrth 2018]

Mind (2017), 'Brick by Brick: a review of mental health and housing'. Ar gael yn: <https://www.mind.org.uk/media/17947884/20171115-brick-by-brick-final-low-res-pdf-plus-links.pdf> [agorwyd: 26 Mawrth 2018]

Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2013), 'Ymchwiliad i Addasiadau yn y Cartref' Ar gael yn: <http://senedd.assembly.wales/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=5136> [agorwyd: 26 Mawrth 2018]

ONS (2017), 'Family Resources Survey: financial year 2015/16'. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/family-resources-survey-financial-year-201516> [agorwyd: 26 Mawrth 2018]

Swyddfa Archwilio Cymru (2017), 'Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru'. Ar gael yn: <http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/rhaglen-cefnogi-pobl-llywodraeth-cymru> [agorwyd: 27 Mawrth 2018]

Swyddfa Archwilio Cymru (2018) 'Addasiadau Tai' Ar gael yn: <http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/addasiadau-tai> [agorwyd: 27 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2005), 'Development Quality Requirements, Design standards and requirements'. Ar gael yn <https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/publications/devqualityrequire/?skip=1&lang=cy> [agorwyd: 26 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2017), 'Dogfen gymeradwy Rhan M (mynediad i adeiladau a defnydd ohonynt)' Ar gael yn:

<https://gov.wales/topics/planning/buildingregs/approved-documents/part-m-access-and-use/?skip=1&lang=cy> [agorwyd: 27 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2013), 'Tai Cymdeithasol Hygyrch: adolygiad o'r systemau asesu'. Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/accessible-social-housing/?skip=1&lang=cy> [agorwyd: 27 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2013), 'Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol'. Ar gael yn: <https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/disability/framework-for-action/?skip=1&lang=cy> [agorwyd: 30 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2015), 'Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol'. Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/review-independent-living-adaptations/?skip=1&lang=cy> [agorwyd: 27 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2016), 'Cofrestri Tai Cyffredin' a 'Chofrestri Tai Hygyrch' Awdurdodau Lleol: Adroddiad". Ar gael yn: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2016/161003-local-authority-survey-accessible-housing-registers-cy.pdf> [agorwyd: 27 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2016), 'Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9)'. Ar gael yn: <https://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy> [agorwyd: 26 Mawrth]

Llywodraeth Cymru (2017), 'Adroddiad Blynyddol ar Safon Ansawdd Tai Cymru'. Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-housing-quality-standard/?lang=en> [agorwyd 22 Mawrth 2017]

Williams C., Borland J., Griffiths, A., Roberts, G., a Morris, E. (2013), 'Snakes and Ladders: Advice and Support for Discrimination Cases in Wales'. Ar gael yn: https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/snakes_and_ladders_full_report_20_2_03.pdf [agorwyd: 3 Ebrill 2018]

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedigar gael ar ein gwefan: www.equalityhumanrights.com.

Am gyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r **Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb**, gwasanaeth annibynnol, rhad ac am ddim.

Gwefan www.equalityadvisoryservice.com

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 tan 19:00 (Llun i Wener)

10:00 tan 14:00 (Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau a sylwadau parthed y cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu eich adborth.

Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael fel ffeil Microsoft Word o www.equalityhumanrights.com. Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiadau'r Comisiwn ar ffurf amgen, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mai 2018

ISBN: 978-1-84206-731-4

Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi wrth

www.equalityhumanrights.com

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mai 2018
